# Croeso



gan yr Is-ganghellor,
Yr Athro Paul Boyle

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn rhoi gwerth mawr ar waith ein cymuned ôl-raddedig ac yn cael ein hysbrydoli'n gyson gan graffter a syniadau newydd ein myfyrwyr ôl-raddedig.

Mae astudiaethau ôl-raddedig yn fwy na pharhau ym myd addysg uwch yn unig — mae'r buddsoddiad yn mynd i dy wobrwyo â mynediad at wybodaeth arbenigol, dilyniant ar dy lwybr gyrfa presennol a chynnydd yn dy botensial i ennill cyflog da. Yma, ceir cyfleusterau ac addysgu o safon fyd-eang i helpu i ehangu dy wybodaeth a llywio dy uchelgeisiau.


Mae ymchwil wrth wraidd y profiad dysgu ac addysgu yn Abertawe. Yn y tudalennau hyn ceir enghreifftiau o sut rydym yn mynd i'r afael â heriau'r byd go iawn ac yn canolbwyntio ar fywoliaeth a lles y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol drwy ymchwil amrywiol fel ymchwilio i effaith AI cynhyrchiol mewn addysg uwch, creu dur gwyrddach a glanach, arloesi ffyrdd newydd o drin ac atal afiechydon, a hyrwyddo dealltwriaeth a hollti mynyddoedd iâ yn Antarctica.

Mae ymchwil ac arloesi wrth galon profiad Abertawe ac maent yn bwydo'n uniongyrchol i ansawdd ein haddysgu. Yn y prosbectws hwn, cyfeirir yn aml at effaith byd go iawn ein hymchwil, o wella gofal cleifion, i gyflymu'r trawsnewidiad i fyw heb gael effaith ar yr hinsawdd, ac yn rhoi pobl wrth wraidd gwelliannau digidol. Mae ein hymchwil yn gyson yn llywio polisïau sy'n effeithio ar Gymru a'r Gymraeg, gydag ymchwil i effaith y twf mewn ail gartrefi yng Nghymru ymhlith y diweddaraf i ddylanwadu ar gynlluniau ein llywodraeth.

Mae Prifysgol Abertawe wedi ennill cydnabyddiaeth fyd-eang ar ôl cael ei gosod yn safle 298 yn gyffredinol, ymhlith yr 20% o brifysgolion gorau yn y byd, yn nhablau cynghrair diweddaraf Prifysgolion y Byd QS yn 2025. Dyma'r tro cyntaf i Abertawe fod ymysg y 300 uchaf. Cawsom ein henwi hefyd yn 25ain brifysgol orau yn y DU yn y Guardian University Guide 2024 ac roeddem yn safle 129 yn y byd am Ansawdd Ymchwil yn Safleoedd Prifysgolion y Byd Times Higher Education 2024.

Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddarparu rhagoriaeth academaidd ac amgylchedd ymchwil ffyniannus a chefnogol lle gall ein hymchwilwyr ôl-raddedig wneud gwahaniaeth go iawn; yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf (2021), roedd 91% o'n hamgylchedd ymchwil ac 86% o'n heffaith ymchwil yn cael eu dyfarnu'n arwain y ffordd yn fyd-eang ac yn rhagorol yn rhyngwladol.

Fy rôl academaidd gyntaf oedd darlithydd ym Mhrifysgol Abertawe, felly rwy'n gwybod o lygad y ffynnon am yr addysgu rhagorol a'r addysg wedi'i llywio gan ymchwil a gei di yma, heb sôn am ansawdd profiad y myfyrwyr.


10


28


42



# Pam Abertawe

THRAETH
**3 BANER LAS**
ar dy stepen drws
2023

## O'R DDARLITH I'R TRAETH MEWN 5 MUNUD

Fel myfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe, gelli di gerdded yn syth allan o dy ddarlith i draeth hyfryd 5 milltir o hyd, ar Gampws Parc Singleton a Champws y Bae.

Ar stepen drws Penrhyn Gŵyr (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol), bydd gen ti fynediad i rai o draethau gorau'r byd.


Ar gyfartaledd mae rhent yn
**19%**
**YN IS NA CHAERDYDD***

**3ydd**

**3ydd Lleoliad gorau yn y DU Ansawdd Bywyd**
(comparethemarket.com 2023)

## BYWYD MYFYRIWR NA FYDD YN COSTIO FFORTIWN!

Yn Abertawe, mae'r rhent, a chost bwyta allan, bwyd ac adloniant, yn is na llawer o ddinasoedd mwy yn y DU sydd â phrifysgol, felly gallai dy gyllideb ymestyn ychydig ymhellach.



*Ar gyfartaledd, mae rhent yn Abertawe 68% yn is na Llundain ac ar gyfartaledd 19% yn is na Chaerdydd. (numbeo.com/cost-of-living/in/Swansea).

## PROFIAD O RAGORIAETH MEWN PRIFYSGOL SYDD YMYSG Y GOREUON YN Y DU

Mae dewis Prifysgol Abertawe yn golygu ymuno â chymuned academaidd o fri, ac mae rhai o ysgolheigion mwyaf blaenllaw Cymru o fri rhyngwladol yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y pumed safle yn y DU (unicompare 2023) ac wedi'i rhestru yn y 25 Uchaf yn ôl The Guardian a'r 298 Uchaf yn ôl rhestr QS o brifysgolion y byd, rydym ni'n cynnig mwy na gradd yn unig. Mae'r safleoedd hyn yn dangos ein hymroddiad i ddarparu addysg a chyfleoedd rhagorol.

Yn Abertawe, rwyt ti'n fwy na myfyriwr; rwyt ti'n rhan o gymuned fywiog sy'n cynnig lefel eithriadol o gymorth sy'n ymroddedig i dy lwyddiant.

The Guardian **25 AIN YN Y DU**

(Guardian University Guide 2024)

**BYDDAI 100 % O FYFYRWYR**

uni compare

A HOLWYD YN ARGYMELL PRIFYSGOL ABERTAWE

(Uni Compare University Rankings 2025)

QS WORLD UNIVERSITY RANKINGS®

**YN SAFLE 298 YN FYD-EANG O BRIFYSGOLION UCHAF Y BYD**

(Tablau Prifysgolion y Byd QS 2025)

**2023 Graduate Labour Market Statistics gov.uk

«Data yn seiliedig ar 1099 o ymatebion a gymerwyd o PGTSES 2023/24 – arolwg mewnol yn asesu boddhad myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir Prifysgol Abertawe

## RYDYM NI YMA I TI

BODDHAD MYFYRWYR ADDYSGU ÔL-RADDEDIG«

**92%**

Arolwg Profiad Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir. Gwanwyn 2024

Rydym ni'n deall yr her wrth addasu i amgylcheddau newydd a rheoli pwysau bywyd academaidd. Mae ein timau cymorth cyfeillgar ymroddedig yma bob amser i helpu, gan gynnig cyngor ar bopeth o iechyd meddwl i galedi ariannol.

Byddi di hefyd yn ymuno â chymuned sydd â bron 50 o glybiau chwaraeon a thros 150 o gymdeithasau ar gael, gan ei gwneud hi'n hawdd cwrdd â ffrindiau newydd a rhoi cynnig ar bethau newydd.



POTENSIAL ENNILL ÔL-RADDEDIG

**12.5%****

yn uwch

na'r cyflog cyfartalog ar lefel israddedig

**95%**

Y GYFRADD GYFLOGADWYEDD~

HYNT GRADDEDIGION

## BOD YN BAROD AM WAITH AR ÔL GRADDIO

Gyda hanes rhagorol o ran cyflogadwyedd, mae Prifysgol Abertawe yn sicrhau dy fod yn barod am y farchnad swyddi. Mae ein cysylltiadau cryf â byd diwydiant a chwmnïau adnabyddus yn sail i'n hymrwymiad i fodloni gofynion byd diwydiant.

Mae gan lawer o'n cyrsiau achrediad proffesiynol neu maen nhw'n cynnig lleoliadau gwaith prosiect ym myd diwydiant, gan dy alluogi i gymhwyso dy wybodaeth mewn lleoliadau ymarferol.

~95% o'n graddedigion yn gweithio, astudio a/neu'n ymgymryd â gweithgareddau eraill, megis teithio, 15 mis ar ôl gadael Prifysgol Abertawe (HESA 2023).

**1,822** DARLITHOEDD CYHOEDDUS

**DROS 50** O GLYBIAU CHWARAEON +

**150** O GYMDEITHASAU MYFYRWYR

**1,020** MANNAU BEICIO

**17,573** ISRADDEDIGION

**7,027** ÔL-RADDEDIGION

**1,135** STAFF ACADEMAIDD

**5,570** MYFYRWYR TRAMOR

Adolygiad Blynyddol Prifysgol Abertawe 2023




## Shwmae CROESO CYMREIG CYNNES

Yma yn Abertawe, lle sy'n enwog am ei awyrgylch cynhwysol a chyfeillgar, byddi di'n cael croeso Cymreig cynnes iawn. Mae'n fwy na champws yn unig; mae'n gartref lle mae'r gair 'Shwmae' yn golygu mwy na helô, mae'n gyfarchiad teimladwy o gyfeillgarwch.

## BUDDSODDIADAU ENFAWR AR Y CAMPWS: GWELLA DY BROFIAD FEL MYFYRIWR

Mae ein buddsoddiad sylweddol (£107 miliwn dros y bum mlynedd diwethaf), yn creu gwell lleoedd i fyfyrwyr, lleoedd academaidd a chyfleusterau o'r radd flaenaf ar draws y ddau gampws.

Yn Abertawe, byddi di'n cael profiad o Undeb Myfyrwyr arobryn a ffefrynnau cyfarwydd fel Starbucks, Subway, Greggs a Costa ar draws ein campysau yn ogystal â Pharc Chwaraeon gwerth £20 miliwn gyda phwll nofio maint Olympaidd, clwb nos, ystafelloedd gemau, sesiynau myfyrdod a mannau ffydd a ffreutur newydd ei hadnewyddu a agorodd yn 2023, sy'n cynnig man cyfoes i fwyta, astudio a chymdeithasu.



**BUDDSODDWYD**
**£107**
**MILIWN**



**86%** REF2021 Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

**YMCHWIL SY'N ARWAIN Y BYD AC YN RHAGOROL YN RHYNGWLADOL**

**£67m** **INCWM YMCHWIL**

**8**
**UCHAF YN Y DU**

people & planet
**CYNGHRAIR**
PRIFYSGOL

(Cynghrair Prifysgol People & Planet 2023/24)

THE World University Rankings **17EG YN Y DU**

(Mesur ymrwymiad prifysgolion i bob un o Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Times Higher University Impact Ratings 2024)






# Graddau Ôl-raddedig A ADDYSGIR

### AI GRADD ÔL-RADDEDIG A ADDYSGIR YW'R DEWIS PRIODOL I MI?

**Ie, os wyt am wneud:**

- ☑ Gwella dy ragolygon gyrfa
- ☑ Meithrin sgiliau newydd ac arbenigol
- ☑ Paratoi ar gyfer gradd ymchwil
- ☑ Datblygu dy wybodaeth bwnc o dy radd gyntaf
- ☑ Astudio pwnc newydd sbon
- ☑ Gwella dy botensial ennill

Mae graddau ôl-raddedig a addysgir yn cynnig her academaidd gyffrous y tu hwnt i astudiaethau israddedig, gan ofyn am fwy o ddysgu hunangyfeiriedig a dealltwriaeth ddyfnach o dy bwnc a ddewiswyd. Mae ein rhaglenni meistr yn cyfuno modiwlau a addysgir sy'n ennyn diddordeb trwy waith cwrs a asesir, gan ddod i ben trwy brosiect ymchwil neu draethawd estynedig.

Trwy 120 o gredydau o fodiwlau a addysgir a 60 o gredydau o dy draethawd estynedig, byddi di'n meithrin gwybodaeth gynhwysfawr ac arbenigedd arbenigol. Mae ein cyrsiau'n cynnwys sgiliau ymchwil a methodoleg hanfodol, yn ogystal â hyfforddiant adrannol pwrpasol i dy baratoi ar gyfer dy astudiaethau academaidd a phroffesiynol uwch.

Bydd cyfleoedd hyfforddiant arbenigol drwy gydol y flwyddyn yn cyfoethogi dy brofiad dysgu. Ar ben hynny, gelli di ennill Diploma Ôl-raddedig gyda 120 o gredydau neu Dystysgrif Ôl-raddedig gyda 60 o gredydau.

Ym Mhrifysgol Abertawe, gelli di ddewis o blith ystod amrywiol o raglenni gradd ôl-raddedig, gan gynnwys MA, MSc a LLM, naill ai'n parhau â ffocws dy raglen israddedig neu'n archwilio meysydd newydd. Ymuna â ni i ehangu dy wybodaeth, gwella dy sgiliau ac agor drysau i gyfleoedd gyrfa cyffrous.

**BODDHAD MYFYRWYR ADDYSGU ÔL-RADDEDIG**

**92%***


Arolwg Profiad Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir. Gwanwyn 2024*

*Dywedodd 92% o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir eu bod yn fodlon â'r addysgu ar eu cwrs. Data yn seiliedig ar 1099 o ymatebion a gymerwyd o PGTSES 2023/24 – arolwg mewnol yn asesu boddhad myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir Prifysgol Abertawe)

# Bywyd Prifysgol Abertawe:

## DERE I GAEL PROFIAD MYFYRIWR GO IAWN!

Mae ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn dangos popeth mae angen i ti ei wybod am fywyd fel myfyriwr yn Abertawe. Gyda myfyrwyr yn cymryd yr awenau, podlediadau, flogiau a mwy – mae gyda ni gymaint i ti.



**Dilyn ni ar Instagram @prifabertawe**




STUDENT vlogs MYFYRWYR

YouTube

**@prifabertawe**

**Edrych ar ein vlogs myfyrwyr a fideos eraill ar ein sianel YouTube:**

# SEFYDLU CYNALIADWYEDD YM *mywyd y Brifysgol*

Ym Mhrifysgol Abertawe rydym yn ffodus iawn bod gennym gyfoeth o gynefinoedd, o draethau i goetir i barciau, ac rydym ni'n frwdfrydig dros ben am ddatblygu cynaliadwy er budd ein cymuned leol, y DU a'r byd ehangach.

Fel myfyriwr, mae digon o gyfleoedd i ti gymryd rhan mewn cadwraeth ymarferol. Gelli di helpu i gadw'r ardaloedd hyn yn arbennig drwy ymuno â'n sesiynau rheolaidd i lanhau traethau, sesiynau gwirfoddoli a monitro bywyd gwyllt. Yn ogystal â helpu'r amgylchedd, byddi di'n dysgu sgiliau newydd ac yn cwrdd â ffrindiau newydd ar yr un pryd.

**Darganfydda fwy am gymryd rhan**

## GWOBR Y DINESYDD BYD-EANG

Mae ein **Gwobr Dinesydd Byd-eang** unigryw yn cynnig cyfle i fyfyrwyr sy'n astudio unrhyw bwnc, mewn unrhyw flwyddyn o'u gradd, ennill dyfarniad allgyrsiol a fydd yn rhoi hwb i dy sgiliau gwyrdd a dy gyflogadwyedd.

P'un a oes gen ti ddiddordeb mewn defnydd cyfrifol, yr argyfwng hinsawdd, diwydiant ac arloesi cynaliadwy, neu unrhyw beth yn y canol, bydd gennym rywbeth i ti. Mae cwblhau'r wobr, sy'n seiliedig ar 17 Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, yn cyfrannu at dy gofnod academaidd ac yn addysgu amrywiaeth eang o sgiliau i ti.




"Gyda'n campysau ar lan y môr a'r parciau a'r cynefinoedd cyfagos, ein nod yw annog ein myfyrwyr i leihau effeithiau cyfunol ac unigol ar yr amgylchedd a'u gwobrwyo am ein helpu i gyflawni hyn.

Mae ein ap ymgysylltu â chynaliadwyedd, SWell, yn galluogi myfyrwyr i ennill 'Pwyntiau Gwyrdd' am gymryd camau cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi bywyd gwyllt, dewis dull trafnidiaeth carbon isel, cymryd camau i wella dy les meddyliol, a llawer mwy. Bob mis bydd y rhai sy'n ennill y nifer mwyaf o bwyntiau yn ennill taleb i fanwerthwr cynaliadwy, gwobr rydym yn gobeithio y bydd yn gwella cynaliadwyedd pob dydd ein myfyrwyr ac yn cymell eraill i weithredu. Ers i ni lansio'r ap yn 2021, mae myfyrwyr wedi cofnodi dros 203,051 o gamau gweithredu cadarnhaol, ac ar y cyd â staff wedi arbed dros 387,850kg o $CO_2$e.

Pa effaith gelli di ei chael?"

**Katie Horsburgh**
Cyn-fyfyriwr Bioleg, Cadwraeth a Rheoli Adnoddau ac yn awr Swyddog Cynaliadwyedd, Prifysgol Abertawe

# Cyrsiau

Clicia ar deitl y cwrs i weld y manylion

- Addysg
- Astudiaethau Americanaidd
- Astudiaethau Canoloesol
- Y Biowyddorau
- Busnes Rhyngwladol
- Cemeg
- Y Clasuron, Hanes yr Henfyd ac Eifftoleg
- Cyfrifeg a Chyllid
- Cyfrifeg a Chyllid – Arbenigaethau
- Cyfrifiadureg
- Y Cyfryngau, Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol
- Cymraeg
- Daearyddiaeth
- Economeg
- Ffiseg
- Gofal Iechyd Cymunedol, Iechyd y Cyhoedd a Gofal Iechyd Sylfaenol
- Gwaith Cymdeithasol
- Gweinyddu Busnes, MBA
- Gwleidyddiaeth, Athroniaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- Y Gwyddorau Meddygol a Bywyd – Rhaglenni a Addysgir
- Y Gwyddorau Meddygol a Bywyd – Rhaglenni Ymchwil
- Y Gyfraith
- Y Gyfraith – Cyrsiau Proffesiynol

Y Gyfraith – Morgludiant a Masnach

Hanes

Hanes a Threftadaeth Cyhoeddus

Iaith Saesneg, TESOL ac Ieithyddiaeth Gymhwysol

Iechyd y Cyhoedd a'r Boblogaeth

Ieithoedd Modern, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd

Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

Marchnata

Mathemateg

Meddygaeth, Gofal Iechyd a Nyrsio

Peirianneg – Doethuriaeth Peirianneg

Peirianneg – Rhaglenni a Addysgir

Peirianneg – Rhaglenni Ymchwil

Plant a Phobl Ifanc

Proffesiynau Perthynol i Iechyd

Rheoli

Rheoli Adnoddau Dynol

Rheoli Iechyd a Gofal Uwch (Yn Seiliedig ar Werth)

Rheoli Uwch (Arloesi a Thrawsnewid Iechyd)

Rhyfel a Chymdeithas

Seicoleg a Niwrowyddoniaeth

TAR – Cynradd

TAR – Uwchradd

Troseddeg

# ASTUDIAETHAU AMERICANAIDD

## CAMPWS PARC SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Astudiaethau Americanaidd MA drwy Ymchwil/MPhil (ALl) (RhA)
- Astudiaethau Americanaidd PhD (ALl) (DoB)

Ymchwilia i fyd tra diddorol a chymhleth yr Unol Daleithiau gyda'n rhaglen Astudiaethau Americanaidd.

Mae ein rhaglenni MA drwy Ymchwil, MPhil a PhD yn cynnig cyfle i wneud cyfraniad gwreiddiol at wybodaeth ym meysydd hanes, llenyddiaeth, gwleidyddiaeth a diwylliant Americanaidd. Mae diddordebau ymchwil ein hacademyddion yn cynnwys Rhyfel Cartref America, hanes a diwylliant De a Gorllewin yr Unol Daleithiau, moderniaeth ac ôl-foderniaeth, ffilmiau mud, llenyddiaeth Affricanaidd-Americanaidd, polisi tramor yr Unol Daleithiau a therfysgaeth. Mae croeso arbennig i brosiectau sy'n mabwysiadu ymagwedd ryngddisgyblaethol.

### BETH GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae Prifysgol Abertawe'n un o ganolfannau mwyaf blaenllaw Cymru ar gyfer Astudiaethau Americanaidd. Mae ein hymchwilwyr yn cydweithredu â nifer o brifysgolion ledled yr Unol Daleithiau ar brosiectau ymchwil.
- Mae rhaglen MA drwy Ymchwil, MPhil neu PhD mewn Astudiaethau Americanaidd yn galluogi myfyrwyr i ymgymryd â phrosiect sylweddol yn seiliedig ar eu diddordebau personol, dan arweiniad arbenigol staff sy'n weithredol ym maes ymchwil.
- Byddi di'n astudio mewn amgylchedd ymchwil rhyngddisgyblaethol sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd ymchwil, gan gynnwys llenyddiaeth, hanes, gwleidyddiaeth a llywodraeth, ffilmiau, cerddoriaeth, amgylchedd adeiledig a diwylliant gweledol Americanaidd.
- Gelli di wella dy wybodaeth a'th sgiliau drwy radd ymchwil sy'n agor y drws i yrfaoedd mewn meysydd amrywiol gan gynnwys y byd academaidd, addysg, llywodraeth a'r sector preifat.

Darllena'r wybodaeth lawn am ein cyrsiau

**5ed**
YN Y DU
YN GYFFREDINOL
(Complete University Guide 2025)*

### PAM ABERTAWE?

- Mynediad at gasgliadau llyfrgell unigryw, gan gynnwys Casgliad Allan Milne o dros 3,000 o ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd sy'n ymwneud â Rhyfel Cartref America – un o'r casgliadau mwyaf o'i fath yn y DU.
- Gelli di ddewis o amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddiant sgiliau ymchwil a datblygiad proffesiynol, gan gynnwys seminarau ymchwil rheolaidd, hyfforddiant addysgu a chynhadledd ymchwil ôl-raddedig flynyddol.
- Byddi di'n elwa o fannau astudio ac ystafelloedd cyfarfod dynodedig ar y campws, ynghyd â chyfleusterau TG ar gyfer astudio unigol a dysgu rhyngweithiol.
- Gan astudio ar Gampws Parc Singleton, byddi di'n gallu ymdrochi'n llwyr ym mywyd y campws a manteisio ar amrywiaeth eang o wasanaethau, gweithgareddau a chlybiau – popeth ar stepen drws dinas hanesyddol a lleoliad godidog ar lan y môr.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Cysylltiadau Rhyngwladol, MA
- Gwleidyddiaeth, MA
- Hanes, MA
- Hanes, MA drwy Ymchwil/PhD/MPhil
- Hanes Cyhoeddus a Threftadaeth, MA
- Rhyfel a Chymdeithas, MA

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

Ysgoloriaethau ôl-raddedig

*Sgôr benodol i'r lefel israddedig sy'n cynnwys asesu ansawdd ymchwil y sefydliad.

# Y BIOWYDDORAU

## CAMPWS PARC SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Bioamrywiaeth ac Ecosystemau MRes (ALl) (RhA)
- Cynnyrch Naturiol ac Adnoddau Amgylcheddol MRes (ALl) (RhA)
- Ecoleg Ymddygiadol ac Esblygiad MRes (ALl) (RhA)
- Gwyddorau Biolegol MPhil/PhD (ALl) (RhA) (DoB)
- Systemau Morol a Dŵr Croyw MRes (ALl)

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Bioamrywiaeth a Chadwraeth Fyd-eang MSc (ALl) (RhA)

Mae Abertawe'n cynnig amgylchedd rhagorol ar gyfer myfyrwyr y Biowyddorau, gan gynnwys canolfannau ymchwil o'r radd flaenaf, labordai â'r cyfarpar diweddaraf, ynghyd â pharcdir ac arfordir godidog. Mae'r ardaloedd cyffiniol megis Cwm Tawe, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Phenrhyn Gŵyr (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU) yn darparu cynefinoedd amrywiol i fyfyrwyr eu harchwilio a dysgu ohonynt. Dyma'r lleoliad perffaith i fyfyriwr y Biowyddorau ffynnu, ac felly'n ddewis perffaith i unrhyw un sy'n awyddus i gael gyrfa yn y maes hwn.

### BETH GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae ein rhaglenni'n canolbwyntio ar y perthnasoedd rhwng organebau byw a'r amgylcheddau daearol, dŵr croyw a morol ynghyd â'r rhyngweithiadau sy'n deillio o brosesau naturiol ac anthropogenig.
- Rydym yn cynnal ymchwil ar draws y gwyddorau naturiol, sy'n cyfuno gwyddoniaeth sylfaenol a chymhwysol i roi amgylchedd ymchwil cynhwysfawr.
- Mae ein hymchwil yn canolbwyntio ar bedair thema, sy'n rhan integredig o'n cenhadaeth addysg: Systemau Morol a Dŵr Croyw, Ecoleg Ymddygiadol ac Esblygiad, Bioamrywiaeth ac Ecosystemau, Cynhyrchion Naturiol ac Adnoddau Amgylcheddol.
- Byddi di'n cael dy addysgu a'th ysbrydoli gan amrywiaeth o arbenigwyr yn y biowyddorau, gan gynnwys Dr Richard Unsworth, ymgynghorydd ar gyfres uchel ei bri yn fyd-eang y BBC, Blue Planet II; yr Athro Carlos Garcia de Leaniz, sy'n arbenigwr mewn ymddygiad, cadwraeth ac ecoleg eogiaid ac yn arweinydd y prosiect Ewropeaidd aml-bartner, AMBER.

Darllena'r wybodaeth lawn am ein cyrsiau

**30 UCHAF YN Y DU GWYDDORAU BIOLEGOL** (Tablau Prifysgolion y Byd QS 2024)

### PAM ABERTAWE?

- Mae gennym gysylltiadau dylanwadol â sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Mamaliaid Prydain a Chanolfan Gwlyptiroedd Cymru i ychwanegu gwerth at dy astudiaethau.
- Cydnabyddir bod 100% o'n hallbynnau ymchwil yn arwain y ffordd yn fyd-eang ac yn rhagorol yn rhyngwladol (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021).
- Gall myfyrwyr elwa o'n cyfleusterau addysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf, gan gynnwys y Ganolfan Ymchwil Dyfrol Cynaliadwy sy'n cynnig labordai ag amgylchedd a reolir ynghyd â systemau dyfrol ailgylchredol y gellir eu rhaglennu.
- Mae gennym long arolygu dosbarth catamarán 18 medr o hyd a ddyluniwyd i'r diben a chanolfan ddelweddu, yr unig un o'i bath yn y byd, sy'n dangos gwybodaeth aml-ddimensiwn yn seiliedig ar ddata olrhain anifeiliaid.
- Mae rhai o'n graddedigion diweddar wedi mynd ymlaen i gael gyrfaoedd llwyddiannus fel ecolegwyr, swyddogion hydrometreg a thelemetreg, tacsonomyddion benthig a swyddogion bywyd gwyllt ac addysg.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- TAR Uwchradd gyda SAC: Bioleg PGCert

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

Ysgoloriaethau ôl-raddedig

# BUSNES RHYNGWLADOL

## CAMPWS Y BAE

**RHAGLENNI YMCHWIL**

- Busnes Rhyngwladol MSc (ALl) (RhA)

Mae'r rhaglen MSc Busnes Rhyngwladol wedi'i dylunio'n benodol i drin a thrafod y prosesau gofynnol er mwyn i sefydliadau fynd i'r afael â'r heriau a'r materion y mae busnesau rhyngwladol yn eu hwynebu, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â strategaeth, mentergarwch, arloesi, marchnata, arweinyddiaeth a chyllid, yn ogystal â llywodraethu corfforaethol a moeseg.

Mae cynnydd mewn masnach a buddsoddi uniongyrchol o dramor, teithio, y rhyngrwyd a chyfnewid diwylliannol i gyd wedi rhoi mwy o gyfleoedd i sefydliadau ehangu'n rhyngwladol, i fanteisio ar gyfleoedd newydd a bodloni'r galw cynyddol yn fyd-eang am nwyddau a gwasanaethau. Mae'r rhaglen meistr hon yn dy helpu i hogi'r sgiliau ar gyfer gweithio mewn byd busnes sy'n gynyddol ryngwladol a chysylltiedig.

### BETH GELLI DI EI DDISGWYL

- Mae'r rhaglen yn cynnig cyfleoedd hanfodol mewn busnesau, drwy'r clinig busnesau bach ar y campws, i ymgymryd â phrosiectau gyda sefydliadau yn y byd go iawn fel rhan o'r modiwl Ymgynghori â Busnesau Rhyngwladol. Mae hyn yn rhoi mynediad uniongyrchol at fyd diwydiant, er mwyn cynghori ar faterion pob dydd a meithrin profiad.
- Mae'r modiwlau'n ymdrin â'r ystod lawn o bynciau sy'n ymwneud â Busnes Rhyngwladol, gan gynnwys marchnata, cyllid, llywodraethu ac ymgynghori.
- Bydd gen ti gyngor gyrfa unigol, pwrpasol a diderfyn gan ein tîm gyrfaoedd penodol, sydd â chysylltiadau cryf ag ystod o sefydliadau uchel eu proffil.

Darllena'r wybodaeth lawn am ein cyrsiau

**10fed**
YN Y DU
**ASTUDIAETHAU BUSNES A RHEOLI**
(Tablau Prifysgolion y Byd QS 2024)

### PAM ABERTAWE?

- Bydd yr addysgu yn rhan o adeilad yr Ysgol Reolaeth y buddsoddwyd £22 miliwn ynddo ar Gampws y Bae.
- Mae gennym hanes ardderchog o leoli ein graddedigion gyda chwmnïau amlwladol mawr.
- Caiff modiwlau eu haddysgu gan ein staff academaidd o'r radd flaenaf sydd â gwybodaeth ddiwydiannol ac academaidd.


### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED:

- Marchnata, MSc
- Rheoli, MSc
- Rheoli Adnoddau Dynol, MSc

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**Ysgoloriaethau ôl-raddedig**



"Mae Prifysgol Abertawe wedi rhoi'r cyfle i mi gynnal ymchwil flaenllaw a mwynhau rhai o ardaloedd gwledig harddaf Cymru. Fel myfyriwr PhD sydd newydd ddechrau, roedd sail gref Abertawe mewn ymchwil gydweithredol wir yn disgleirio, ac rwy' wedi teimlo fy mod i'n cael fy nghefnogi'n fawr. Mae diwylliant cydweithredol y Brifysgol yn ymestyn ar draws cyfadrannau, gan wella fy ymchwil gyda grwpiau fel Sêr SAM a SPECIFIC. Cyfrannodd yr amgylchedd cefnogol hwn at gael fy newis i gymryd rhan yn rownd derfynol STEM for Britain 2022, lle cyflwynais yn y Senedd ac ennill y Wobr Efydd mewn Cemeg a Gwobr Dyson am ymchwil i Ddyfodol Cynaliadwy.

**John Hudson**

*PhD mewn Cemeg*

**Grŵp ReD / SerSAM**"



“Roeddwn i'n teimlo ei bod hi’n hanfodol cael addysg drylwyr er mwyn cael gyrfa mewn cyfrifeg. Cefais yr wybodaeth angenrheidiol i wella a datblygu fy ngallu yn rhan o'r cwrs, a hynny wedi'i strwythuro o amgylch arholiadau proffesiynol. Rydw i wedi llwyddo mewn tri o arholiadau’r ACCA. Fy hoff un oedd Rheoli Perfformiad Uwch a gafodd ei ddysgu gan ddarlithydd gwych. Roeddwn i'n gallu cwrdd â myfyrwyr eraill o Hong Kong ac ymgyfarwyddo ag ardal Abertawe pan ymunais i â Chymdeithas Hong Kong.

**Wing Man Natalie KO**

*Cyfrifeg Strategol, MSc*”

# DAEARYDDIAETH

## CAMPWS PARC SINGLETON

**12fed**
YN Y DU
**BODDHAD Â'R ADDYSGU**
(Guardian University Guide 2024)

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Arsylwi ar y Ddaear MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Astudiaethau Trefol MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Daearyddiaeth y Cyfryngau MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Daearyddiaeth Ddynol PhD/MPhil ALl RhA
- Daearyddiaeth Ffisegol PhD/MPhil ALl RhA
- Damcaniaeth a Gofod Cymdeithasol MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Dynameg Amgylcheddol MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Modelu Amgylcheddol Byd-eang MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Mudo Byd-eang MSc drwy Ymchwil ALl RhA
- Rhewlifeg MSc drwy Ymchwil ALl RhA

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Cymdeithas, yr Amgylchedd a Newid Byd-Eang MSc ALl
- Dynameg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd MSc ALl RhA
- Gwybodaeth Ddaearyddol a Newid yn yr Hinsawdd MSc ALl RhA
- Synhwyro Amgylcheddol o Bell a Drôn MSc ALl

Dechreua ar daith gyffrous o ddarganfod, gan astudio Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Abertawe. Mae gan ein hadran arbenigwyr blaenllaw mewn daearyddiaeth ddynol a ffisegol, sy'n ymroddedig i gynnig addysg ac ymchwil o'r radd flaenaf.

Ymuna â'n cymuned fywiog o ymchwilwyr ôl-raddedig ac ymgolla mewn amgylchedd dynamig lle mae ymchwil sy'n torri tir newydd yn cyfrannu at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys Gweithredu ar yr Hinsawdd, Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy, Dŵr Glân a Glanweithdra.


### BETH GELLI DI EI DDISGWYL

- Bydd dy ddysgu'n elwa o gyfuniad o arbenigedd ymchwil staff yr adrannau Daearyddiaeth a Biowyddorau ym meysydd dynameg amgylcheddol a hinsoddol, bioleg forol ac ecosystemau, a datblygu cynaliadwy.

**Darllena'r wybodaeth lawn am ein cyrsiau**

- Byddi di'n ennill gwybodaeth ddofn o'r materion gwyddonol presennol sy'n sail i ddata daearyddol, newid yn yr hinsawdd a dynameg amgylcheddol.
- Mae ein gweithgarwch diweddar wedi cynnwys olrhain sgafell iâ Larsen C, adnabod coed olewydd sydd wedi cael eu heintio drwy ddelweddu o bell, a monitro ansawdd dŵr ar ôl tanau gwyllt yn Sydney.

**Trosolwg o'r Rhaglen: MSc mewn Cymdeithas, yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd**



### PAM ABERTAWE?

- Mae dwy o'n rhaglenni MSc wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol (gydag IBG).
- Dyfarnwyd bod 100% o Amgylchedd Ymchwil ac Effaith Systemau'r Ddaear a'r Gwyddorau Amgylcheddol yn arwain y ffordd yn fyd-eang ac yn ardderchog yn rhyngwladol yn ôl Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021.
- Mae ein cyfleusterau'n cynnwys 15 gweithfan prosesydd deuol ar gyfer Arsylwi ar y Ddaear, a chlwstwr Beowulf amlbrosesydd 20 nod, ac uwch-gyfrifiadur 'Iâ Glas' IBM yr Adran, a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer modelu hinsoddol a rhewlifegol.
- Mae rhai o'n hacademyddion sy'n enwog yn rhyngwladol yn cynnwys yr Athro Tavi Murray, y fenyw gyntaf i ennill y Fedal Begynol am wasanaeth rhagorol i ymchwil begynol; a'r Athro Adrian Luckman, sydd wedi ennill enw da yn y cyfryngau byd-eang am ymchwil argyfwng hinsawdd i gwymp sgrafell iâ Larsen C.
- Byddi di'n cael dy addysgu gan yr Athro Peter North, sydd wedi gweithio gyda NASA ar 'wyrddni' coedwig yr Amazon; a'r Athro Siwan Davies, y mae ei gwaith yn canolbwyntio ar ganfod pam mae newid yn yr hinsawdd wedi newid mor sydyn dros y100,000 mlynedd diwethaf drwy ymchwilio i ddyddodion lludw folcanig sydd wedi'u dal mewn llenni iâ.

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**Ysgoloriaethau ôl-raddedig**

Mae **modiwlau Cymraeg** ac **ysgoloriaethau sy'n benodol i'r Gymraeg** ar gael.

# Y GYFRAITH

## CAMPWS PARC SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Y Gyfraith PhD/MPhil (AL) (RhA)

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Hawliau Dynol LLM (AL) (RhA)

Ymuna â chymuned ddeinamig yn Ysgol y Gyfraith Prifysgol Abertawe, sy'n cynnig rhaglenni arbenigol a fydd yn dy baratoi ar gyfer galwadau byd cyfreithiol, modern sy'n datblygu'n gyflym. Byddi di'n dysgu gan academyddion o'r radd flaenaf sydd â phrofiad helaeth, wrth archwilio ystod o themâu cyfreithiol sy'n torri tir newydd.

### Y Gyfraith PhD/MPhil

Mae astudio gradd ymchwil ôl-raddedig yn dy alluogi i ymgymryd â phrosiect unigryw, wrth ddatblygu gwybodaeth a sgiliau arbenigol.

Mae ein harbenigeddau ymchwil yn cynnwys Cyfraith Contractau a Masnachol, Cyfraith Forwrol, Cyfraith Gyhoeddus, Cyfraith Droseddol a Chyfraith Troseddau Rhyngwladol, Cyfraith Teulu, Cyfraith Feddygol, Cyfraith Amgylcheddol a'r Gyfraith o ran Terfysgaeth.

Rydym yn cynnig cyfleoedd PhD wedi'u hariannu'n rheolaidd drwy ystod o gyrff ariannu a phartneriaid ymchwil allweddol.

#### BETH GELLI DI EI DDISGWYL

- Goruchwyliaeth ac arweiniad gan arbenigwyr drwy gydol dy radd ymchwil.
- Cymuned ymchwil sefydledig, amrywiol ac amlddisgyblaethol.

### Hawliau Dynol LLM

Human Mae hawliau dynol yn cael eu herio fwyfwy'n genedlaethol ac yn fyd-eang. Mae angen i faterion byd-eang megis tlodi, newid amgylcheddol a therfysgaeth gael eu trafod gan y rhai sy'n creu newid byd-eang ond hefyd randdeiliaid cenedlaethol a lleol.

Rydym yn cynnig rhaglen arbenigol i'th arfogi â'r wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen i olrhain gyrfa mewn hawliau dynol, os wyt ti'n dewis gwneud hynny fel cyfreithiwr, dylanwadwr polisi neu ymgyrchydd.

Byddi di'n ennill dealltwriaeth ddofn o heriau byd-eang allweddol wrth ddysgu gan arbenigwyr hawliau dynol.

#### BETH GELLI DI EI DDISGWYL

- Grwpiau bach a addysgir gan academyddion sydd â llu o brofiad ymarferol.
- Cymorth rhagorol a chyngor ar yrfaoedd i dy helpu i gael gyrfa wobrwyol.

Darllena'r wybodaeth lawn am ein cyrsiau

4YDD YN Y DU
11EG YN Y BYD

(Times Higher Education Impact Rankings 2023)

**13eg**
YN Y DU
**Y GYFRAITH**
(Tablau Prifysgolion y Byd QS 2024)

### PAM ABERTAWE?

- Rydym yn cynnig rhaglenni ôl-raddedig sydd wedi'u llywio gan yr ymchwil a'r arloesedd diweddaraf.
- Mae 83.3% o'n hymchwil yn creu effaith sylweddol o ran ei chyrhaeddiad a'i harwyddocâd (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021).

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Cyfraith Fasnachol a Morwrol Ryngwladol, LLM
- Cyfraith Fasnachol Ryngwladol, LLM
- Cyfraith Forwrol Ryngwladol, LLM
- Cyfraith Masnach Ryngwladol, LLM
- Cyfraith Olew, Nwy ac Ynni Adnewyddadwy, LLM
- Eiddo Deallusol ac Arloesi LLM
- Y Gyfraith ac Ymarfer Cyfreithiol, LLM
- TechGyfreithiol a Chyfraith Fasnachol, LLM
- Ymarfer Cyfreithiol Proffesiynol, LLM

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**Ysgoloriaethau ôl-raddedig**

Mae **modiwlau Cymraeg** ac **ysgoloriaethau sy'n benodol i'r Gymraeg** ar gael.



Dewisais astudio'n ôl-raddedig er mwyn datblygu ymhellach ac adeiladu ar agweddau penodol o'r gyfraith. Fe ymgartrefais yn syth yng nghanol cymuned o fyfyrwyr a darlithwyr cyfeillgar a charedig yma yn Abertawe.

Roedd hi'n sicr o fudd i mi astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg megis Eiriolaeth gan fod hyn yn gymorth enfawr i fy nyfodol a fy ngyrfa wrth roi'r gallu i fi drafod gwaith cyfreithiol yn hyderus gyda chleientiaid sy'n Gymry Cymraeg.

Os wyt ti'n ystyried astudio drwy'r Gymraeg fy nghyngor yw, cymera bob cyfle a chymorth sydd ar gael!

Dw i'n credu bod y Gymraeg wedi fy ngalluogi i gael gwell gafael ar y materion yr oeddwn yn ymchwilio iddynt ac mae'r gefnogaeth sydd ar gael a'r gallu i drafod gyda darlithwyr trwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn hanfodol i sicrhau fy mod i'n cyflawni fy ngorau.

Tu hwnt i'r gwaith academaidd mae'r cyfleoedd i gymdeithasu yng nghanol Cymry Gymraeg wedi bod yn bwysig ofnadwy i fi, fel unigolyn sy'n ddyn fy milltir sgwâr yng nghefn gwlad Cymru. Braf yw bod yn rhan o'r gymuned glos yma!

**Guto Ifan Lewis**

*LLM mewn Ymarfer Cyfreithiol a Drafftio Uwch.*

# LLENYDDIAETH SAESNEG AC YSGRIFENNU CREADIGOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

### RHAGLENNI YMCHWIL

- Llenyddiaeth Saesneg MA drwy Ymchwil (AU) (RhA)
- Llenyddiaeth Saesneg PhD/MPhil (AU) (RhA)
- Ysgrifennu Creadigol PhD/MPhil (AU) (RhA)

### RHAGLENNI A ADDYSGIR

- Llenyddiaeth Saesneg MA (AU) (RhA)
- Ysgrifennu Creadigol MA (AU) (RhA)
- Ysgrifennu Creadigol (Estynedig) MA (AU) (RhA)

Caiff ein rhaglen Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol ôl-raddedig ei haddysgu gan academyddion ac awduron o fri. Bydd myfyrwyr MA a PhD yn elwa o raglenni arloesol a rhyngddisgyblaethol sy'n annog creadigrwydd, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Celfyddydau a'r Dyniaethau. Bydd myfyrwyr yn ennill amrywiaeth eang o sgiliau a byddant yn rhan o gymuned ymchwil ddeinamig, gan gymryd rhan mewn trafodaethau bywiog ar draws cyfnodau, genres, diwylliannau ac ymagweddau dehongliadol.

### BETH GELLI DI EI DDISGWYL

Caiff modiwlau MA a addysgir eu cynnig mewn ysgrifennu creadigol, llenyddiaeth ganoloesol, modern cynnar, modernaidd a chyfoes a diwylliant gweledol. Gall myfyrwyr PhD gymryd rhan mewn canolfannau ymchwil cyffrous, megis y canlynol:

- Y Ganolfan Ymchwil i Lên ac Iaith Saesneg Cymru (CREW). Mae CREW wedi'i chydnabod fel arweinydd rhyngwladol ym maes astudiaethau llenyddol a diwylliannol, ac mae wedi datblygu rhaglen helaeth o addysgu ac ymchwil. Mae'n elwa o adnoddau unigryw, gan gynnwys dyddiaduron Richard Burton, papurau Raymond Williams a llyfr nodiadau gan Dylan Thomas a ddarganfuwyd yn ddiweddar.
- Mae Canolfan Ymchwil Canoloesol a Modern Cynnar (MEMO) yn cefnogi staff academaidd a myfyrwyr ôl-raddedig sy'n gweithio ar bynciau hanesyddol, ieithyddol a llenyddol o'r Cyfnod Hynafol Hwyr i oddeutu 1800. Mae ei haelodau wedi ennill cyllid sylweddol gan AHRC, Ymddiriedolaeth Leverhulme, ac Ymddiriedolaeth Wellcome dros y blynyddoedd diweddar.
- Mae'r Ganolfan Ymchwil i Rywedd a Diwylliant mewn Cymdeithas (GENCAS) yn cynnull staff a myfyrwyr ôl-raddedig ledled y Brifysgol sy'n cynnal ymchwil i rywedd, ac mae'n galluogi aelodau i rannu eu harbenigedd a gweithio ar y cyd.
- Mae'r Grŵp Ymchwil Ymarfer Creadigol a Beirniadol (CCPRG) yn fforwm i gyfnewid barn rhwng beirdd, nofelwyr, ysgrifenwyr straeon byrion, dramodwyr, beirniaid llenyddol, ysgolheigion, ysgrifwyr a newyddiadurwyr. Mae'r grŵp yn ymchwilio i arfer cydgysylltiedig darllen creadigol ac ysgrifennu beirniadol mewn cyfres o gyfarfodydd rheolaidd.

Darllena'r wybodaeth lawn am ein cyrsiau

Mae **modiwlau Cymraeg** ac **ysgoloriaethau sy'n benodol i'r Gymraeg** ar gael.

**150** UCHAF YN Y BYD
**IAITH A LLENYDDIAETH SAESNEG**
(Tablau Prifysgolion y Byd QS 2024)

### PAM ABERTAWE?

- Mae galw mawr am lawer o'n staff i roi barn arbenigol ar raglenni radio a theledu, ac ysgrifennu'n rheolaidd ar gyfer y papurau newydd o safon ac adolygiadau llenyddol o bwys.
- Rydym yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys sesiynau a arweinir gan ysgrifenwyr gwadd a gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant.
- Mae Campws Singleton yn gartref i Ganolfan y Celfyddydau Taliesin a Chreu Taliesin, sy'n cynnwys theatr ddeinamig, sinema a mannau creu lle gall myfyrwyr weithio ac ymlacio.
- Mae'r holl fyfyrwyr ymchwil yn rhan o'r Ganolfan i Raddedigion, sy'n cynnig cymorth bugeiliol yn ogystal â chymorth gweinyddol. Mae'n gyfrifol am hyfforddiant sgiliau ymchwil a chymorth academaidd, ac yn gweithredu fel hyb deallusol bywiog i fyfyrwyr ôl-raddedig.
- Ganed un o feirdd gorau'r ugeinfed ganrif yn Abertawe, sef Dylan Thomas. Mae'r Brifysgol yn cynnal Gwobr Lenyddol Ryngwladol Dylan Thomas bob blwyddyn, gwobr gyfoethocaf y byd i awduron o dan 40 oed. Mae'r wobr yn cynnig cyfle i fyfyrwyr ddod i gysylltiad ag asiantwyr, golygyddion, cyhoeddwyr, ysgrifenwyr, perfformwyr a chynhyrchwyr. Mae cysylltiadau â'r byd llenyddol wrth wraidd rhaglen Ysgrifennu Creadigol Abertawe. Mae'r Sefydliad Diwylliannol, y mae ei aelodau'n rheoli Gwobr Dylan Thomas, yn cynnal sgyrsiau a gweithdai drwy gydol y flwyddyn.

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**Ysgoloriaethau ôl-raddedig**

# MARCHNATA

## CAMPWS Y BAE

**RHAGLENNI A ADDYSGIR**

- Marchnata MSc (All)

Mae'r MSc Marchnata wedi cael ei chreu i gynnig dealltwriaeth gynhwysfawr o farchnata modern, lle byddi di'n ennill sgiliau ymarferol a damcaniaethol i'w cymhwyso mewn unrhyw ddiwydiant.

Mae ein rhaglen yn pwysleisio cyfrifoldeb cymdeithasol, cynaliadwyedd a chyflogadwyedd gan sicrhau y byddi di'n graddio â'r offer i greu strategaethau marchnata arloesol a moesegol ar gyfer y dyfodol.

Ar ôl elfennau a addysgir y cwrs, gelli di gwblhau prosiect marchnata yn y gweithle, gan gymhwyso dy sgiliau a'th wybodaeth newydd i fywyd go iawn.

### BETH GELLI DI EI DDISGWYL

- Cyfle i gwblhau lleoliad gwaith tri mis, neu'n fwy traddodiadol, gelli di ddewis cwblhau traethawd hir mewn maes marchnata arbenigol.
- Cymorth eithriadol i fyfyrwyr, ochr yn ochr â dy astudiaethau, gan gynnwys mynediad llawn at y tîm gyrfaoedd.
- Mae ein holl fyfyrwyr yn elwa o gael eu cyd-leoli â byd diwydiant ar Gampws arloesol y Bae.

Darllena'r wybodaeth lawn am ein cyrsiau

**50 UCHAF YN Y BYD MARCHNATA**
(Tablau Prifysgolion y Byd QS 2024)

### PAM ABERTAWE?

- Yn y 5 safle uchaf yn y DU (Marchnata) yn safleoedd QS y Byd fesul Pwnc 2024.
- Wedi'i chreu ar gyfer graddedigion neu weithwyr proffesiynol marchnata a busnes sydd â gradd israddedig berthnasol sy'n cynnwys cysyniadau marchnata craidd.
- Mannau addysgu ac astudio yn adeilad yr Ysgol Reolaeth y buddsoddwyd £22 miliwn ynddo ar Gampws y Bae.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Rheoli (Marchnata), MSc

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

Ysgoloriaethau ôl-raddedig

Mae'r achrediadau'n cynnwys:

AACSB Business Education Alliance Member

SMALL BUSINESS CHARTER



"

Yn ystod fy astudiaethau israddedig yn Nenmarc, cefais semester cyfnewid ym Mhrifysgol Abertawe a gwnaeth y safon greu argraff arnaf. Gwnaeth un darlithydd fy ysbrydoli i ddychwelyd i astudio fy ngradd Meistr yma. Roedd y broses cyflwyno cais yn hwylus diolch i dîm cymwynasgar yn y brifysgol. Mae astudiaethau ôl-raddedig yn rhoi cyfle i feithrin perthnasoedd cryfach â darlithwyr. Gwnes i fwynhau modiwlau amrywiol fel marchnata digidol a marchnata mewn cymdeithas. Roedd ymgartrefu'n hawdd; mae Abertawe'n ddinas ddiogel sydd â chymuned gyfeillgar, ac mae'n wych bod mor agos at draeth hardd.

**Bianca Kronemann**

*MSc Marchnata Strategol*

"



Ers fy BSc, rwyf wedi datblygu diddordebau ymchwil mewn tebygolrwydd ac rwy’n angerddol am ddatrys problemau'r byd go iawn. Mae Adran Fathemateg Prifysgol Abertawe yn hyb arloesi gydag arbenigedd mewn damcaniaethau tebygolrwydd, prosesau stocastig ac ystadegau cymhwysol. Gan gydweithio â sefydliadau fel Cymdeithas Fathemategol Llundain, rydym ar flaen y gad o ran ymchwil sy'n torri tir newydd. Mae campws bywiog Abertawe a'i lleoliad glan môr yn golygu ei bod yn lle gwych i ddod am seibiant cofiadwy. Bellach, yn ystadegydd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rwy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar ddyluniad a dadansoddiad rhaglenni ymchwil a gwerthuso cymhleth sy'n cefnogi rhaglenni ymchwil ac iechyd y boblogaeth ac yn arwain rhaglenni ymchwil sy’n defnyddio data mawr i lywio polisïau iechyd y cyhoedd.

**Jiao Song**

*Chymwyso PhD Mathemateg*

# Meddyliau Mawr

## Yr Athro Trystan Watson

Mae Trystan Watson yn Athro Gwyddoniaeth a Pheirianneg Deunyddiau ac yn un o Gyfarwyddwyr y Ganolfan Arloesi a Gwybodaeth, SPECIFIC sy'n gweithio ar dechnolegau gwyrdd ac yn arbenigo mewn ynni solar.

Cafodd Trystan ei fagu yn Nhre-boeth, ac ar ôl graddio mewn Cemeg yma ym Mhrifysgol Abertawe, ymunodd â'r Ysgol Beirianneg fel myfyriwr ôl-raddedig gan gwblhau doethuriaeth mewn Technoleg Dur. Yna, treuliodd rai blynyddoedd fel peiriannydd datblygu cynnyrch gyda chwmni Corus, bellach Tata Steel, cyn dychwelyd i'r Brifysgol yn 2007 i ymgymryd â swydd ymchwil ar ddatblygu celloedd solar ar swbstradau metel.



Ers hynny, mae ei waith ymchwil wedi canolbwyntio ar gelloedd ffotofoltaidd (PV) ffilm denau wedi'u hargraffu gan arbenigo mewn datblygu technolegau newydd ar gyfer cynhyrchu celloedd ffotofoltaidd gan ddefnyddio dulliau electrocemegol, ffotocemegol ac opto-electronig.

Erbyn hyn, Trystan sy'n arwain gwaith ymchwil PV SPECIFIC a'i nod ymchwil yw cymryd deunyddiau celloedd ffotofoltaidd newydd a datblygu'r biblinell gweithgynhyrchu ar gyfer gwneuthuro ar raddfa fawr. Yn ystod ei yrfa mae Trystan wedi cyhoeddi dros 180 o bapurau academaidd, mae'n beiriannydd siartredig gyda'r IOM3 ac yn gymrawd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol.

Yn Abertawe, rydym yn creu celloedd solar fforddiadwy y dyfodol y gellir eu creu a'u gosod unrhyw le yn y byd. Mae'r gwaith arloesol hwn yn ceisio gwneud ynni solar yn fwy hygyrch, gan chwarae rôl hanfodol wrth atal newid yn yr hinsawdd.

> “Yn Abertawe, rydym yn creu celloedd solar fforddiadwy y dyfodol y gellir eu creu a'u gosod unrhyw le yn y byd. Mae'r gwaith arloesol hwn yn ceisio gwneud ynni solar yn fwy hygyrch, gan chwarae rôl hanfodol wrth atal newid yn yr hinsawdd.”

# RHEOLI ADNODDAU DYNOL

## CAMPWS Y BAE

**RHAGLENNI A ADDYSGIR**

- Rheoli Adnoddau Dynol MSc/PGDip (ALl) (RhA)

Dechreua ar daith i ddatblygu dy sgiliau rheoli pobl gyda'n rhaglen MSc Rheoli Adnoddau Dynol. Mae'r rhaglen hon wedi'i achredu gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD); yr achrediad hanfodol i'r rhai sydd am gael gyrfa mewn AD.

Bydd y rhaglen arbenigol hon yn rhoi mantais gystadleuol i ti wrth gychwyn ym myd rheoli pobl. Ein nod yw dy helpu i fod yn weithiwr proffesiynol AD hyblyg, strategol ac arloesol. Gyda ffocws ar ddatblygiad a lles gweithwyr, byddi di'n ennill gwybodaeth a sgiliau amhrisiadwy i weithio ar draws sefydliadau o bob maint a sector.

### BETH GELLI DI EI DDISGWYL

- Ar ôl cofrestru ar ein rhaglen MSc Rheoli Adnoddau Dynol byddi di'n gymwys i ymuno â'r CIPD fel myfyriwr yn ystod dy astudiaethau.
- Ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, byddi di'n gymwys i gyflwyno cais i fod yn Aelod Cysylltiol o'r CIPD a defnyddio'r teitl Assoc CIPD sy'n gallu helpu i ddatblygu dy yrfa'n gynt.
- Pwyslais ar ymchwil ynghyd ag addysgu ymarferol gan dîm o arbenigwyr yn y sector.
- Rhaglen a luniwyd i fyfyrwyr fod yn weithwyr proffesiynol AD rhagorol gyda galw mawr amdanynt sy'n gweithredu gydag uniondeb ac yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol ac ystyrlon mewn sefydliadau.
- Cyfleusterau sy'n arwain y sector, gyda mannau addysgu dynodedig, ystafelloedd astudio a chyfleusterau TG helaeth.
- Cymorth eithriadol i fyfyrwyr, wrth ochr dy astudiaethau, gan gynnwys mynediad llawn at byddi di'n cael cyngor gyrfa.

.

Darllena'r wybodaeth lawn am ein cyrsiau

**10fed** YN Y DU
**ASTUDIAETHAU BUSNES A RHEOLI**
(Tablau Prifysgolion y Byd QS 2024)

### PAM ABERTAWE?

- Byddi di'n cael dy addysgu gan dîm rhaglen amrywiol sydd ag arbenigedd mewn rheoli ac arwain pobl yn y gweithle.
- Byddi di'n cael dy addysgu gan dîm rhaglen amrywiol sydd ag arbenigedd mewn rheoli ac arwain pobl yn y gweithle.
- Rydym yn cynnig cymorth penedol i fyfyrwyr penodol i fyfyrwyr, gan gynnwys mynediad at dîm o arbenigwyr a chynghorwyr gyrfaoedd.

### HEFYD, GELLI DI YSTYRIED

- Gweinyddu Busnes, MBA
- Rheoli, MSc

### CYLLID

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael:

**Ysgoloriaethau ôl-raddedig**

Mae'r achrediadau'n cynnwys:

CIPD Approved centre · AACSB Business Education Alliance Member · Small Business Charter



“

Mae gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yn fy ysbrydoli ac roeddwn bob amser yn gwerthfawrogi cyfraniad fy athrawon yn yr ysgol uwchradd yn Rhuthun. Dyna'r rheswm, ar ôl astudio cwrs israddedig yn Aberystwyth, symudais lawr i Abertawe ym mis Medi 2023, i astudio cwrs TAR.

Mae’r cwrs yn cynnig mewnwelediad modern i addysgu ac yn rhoi cyfleoedd i bobl o bob oed gymhwyso i fod yn athrawon ysbrydoledig. Mae cymdeithasu a chyd-weithio mewn grwpiau cyswllt yn ffordd wych o ddysgu, ac yn rhoi tawelwch meddwl i'r myfyrwyr a'r sicrwydd hynny bod rhywun yno i siarad gyda nhw os oes angen.

Fy uchelgais yw i barhau i ddatblygu fel athro llwyddiannus, gweld cynnydd a pharhau i wneud gwahaniaeth i fywydau disgyblion, a hyn oll drwy gyfrwng fy iaith gyntaf, Cymraeg.

**Sion Lloyd Edwards**

*TAR Uwchradd Cymraeg*

”



Mae fy nghyfnod fel myfyriwr ôl-raddedig, ar lefel MA a PhD wedi bod yn werth chweil. Mae arbenigedd academaidd y staff yn ogystal â lefel y gefnogaeth y maen nhw'n ei dangos tuag at fyfyrwyr ôl-raddedig wedi cael argraff arnaf. Mae fy ngoruchwylwyr a staff yr adran yn hawdd mynd atynt, yn hael gyda'u hamser ac yn awyddus i rannu eu gwybodaeth. Mae cymryd rhan mewn seminarau, addysgu, a chyflwyniadau cynadledda wedi cyfoethogi fy mhrofiad. Ni allaf argymell astudio ôl-raddedig yn yr Adran Droseddeg yn fwy! Yn sicr fyddi di ddim yn difaru gwneud cais!

**Aaron Brown**
*PhD Troseddeg*

# GWNEUD Cais

## Y BROSES GWNEUD CAIS

Gelli di wneud cais ar-lein am y rhan fwyaf o'n cyrsiau a addysgir a'n cyrsiau ymchwil:

Gwna Gais Ar-lein

Pan fyddwn yn derbyn dy gais, byddwn yn:

- Gwneud yn siŵr dy fod yn bodloni ein gofynion mynediad
- Gwirio bod gen ti'r profiad a'r sgiliau angenrheidiol i astudio'r pwnc
- Chwilio am dystiolaeth o dy gyflawniadau, dy ymrwymiad a dy gymhelliant.

Gelli di olrhain dy gais ar bob cam o'r broses.

Mae proses ymgeisio wahanol ar gyfer rhai cyrsiau. Cer i'n gwefan i gael gwybodaeth am sut i wneud cais ar gyfer dy raglen di:

Y Broses Gwneud Cais

## PA GYMWYSTERAU SYDD EU HANGEN ARNAT?

Er mwyn astudio cwrs ôl-raddedig yn Abertawe, fel arfer bydd angen gradd anrhydedd neu gymhwyster ôl-raddedig priodol arnat. Gellir ystyried profiad gwaith perthnasol ar gyfer mynediad i rai o'n cyrsiau a addysgir. Gweler manylion y cwrs am ofynion mynediad manwl.

Wrth gyflwyno cais, cofia gynnwys:

- Copïau o dy drawsgrifiadau academaidd hyd yn hyn
- Copi o dy dystysgrif gradd (os dyfernir)
- Cymhwyster Iaith Saesneg cymeradwy (os yw'n ofynnol)
- Dy gynnig ymchwil (ar gyfer ceisiadau am raddau ymchwil)
- Dy CV llawn
- Datganiad personol

Mae rhai cyrsiau'n gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwaith ysgrifenedig ychwanegol i ategu cais.

Unwaith y bydd dy gais a dy ddogfennau ategol wedi dod i'n llaw, rydym yn ceisio gwneud penderfyniad (neu roi gwahoddiad am gyfweliad) o fewn 5 niwrnod gwaith ar gyfer ceisiadau am raddau a addysgir a 15 niwrnod gwaith ar gyfer ceisiadau am raddau ymchwil.

